GIG CYMRU NHS WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Welsh Ambulance Services University NHS Trust




Gwasanaeth Ambiwlans Cymru


# Hysbysiad Preifatrwydd Hawdd ei Ddarllen

## Cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac yn breifat

Yn y Gwasanaeth Ambiwlans, rydym am wneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r gofal cywir i chi pan fyddwch yn cysylltu â ni ar 999 neu 111.



Er mwyn ein helpu i roi'r gofal cywir i chi, mae angen i ni ddefnyddio rhywfaint o wybodaeth amdanoch. Mae'r wybodaeth rydym yn ei defnyddio amdanoch chi yn cynnwys:




- Eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni
- Manylion eich perthynas agosaf (Eich perthynas agosaf yw rhywun y gallwn ei ffonio mewn argyfwng, er enghraifft, aelod o'r teulu neu warchgeidwad)
- Gwybodaeth am eich iechyd (unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth rydych chi'n ei dderbyn)
- Y rheswm pam rydych wedi ein ffonio (er enghraifft, os oes angen ambiwlans arnoch)



Mae angen i ni hefyd gofnodi :

- Y pethau rydych chi wedi dweud wrthym, a
- Beth sydd wedi digwydd.

## Pam mae angen eich gwybodaeth arnom?



Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth i roi'r gofal gorau posibl i chi a phobl eraill pan fyddwch yn ffonio 999 neu 111.

Rydym yn ei defnyddio i wirio pa mor dda ry-dyn ni'n gofalu amdanoch chi.

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chadw amda-noch yn rhan o'ch cofnod iechyd.

## Sut rydym yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?




Mae gennym reolau i sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel a dim ond yn cael ei defnyddio gan y bobl sydd ei hangen i'ch helpu.

Rydym yn gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio i ni yn cael hyfforddiant, ac yn gwybod sut i gadw eich gwybodaeth yn ddio-gel.

# Rhannu eich gwybodaeth




Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth os :

- Ydych chi'n gofyn i ni ei rannu.
- Yw'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni ei rannu.
- Ydyn ni'n gofyn a allwn rannu eich gwybodaeth, ac rydych chi'n cytuno.
- Fydd angen i ni ei rannu i helpu gyda'ch gofal ac i roi'r driniaeth gywir i chi.
- Yw rhywun mewn perygl, er enghraifft i atal rhywun rhag cael ei frifo'n ddrwg .

GIG CYMRU NHS WALES

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth i wneud ein gwasanaethau'n well, neu i wneud y GIG yn well.




Byddwn bob amser yn dileu eich manylion personol lle bo modd, fel eich enw a'ch cyfeiriad .

# Mwy am rhannu eich gwybodaeth




Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â gwasanaethau iechyd eraill fel

- eich meddyg,
- ysbytai eraill,
- neu wasanaethau cymdeithasol,

i sicrhau bod yr holl bobl sy'n gofalu amdanoch yn gwybod yn union beth sydd ei angen arnoch.




Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â gwasanaethau brys eraill fel y Gwasanaeth Tân neu'r Heddlu.



Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â gwasanaethau Addysg, fel ysgolion neu golegau.

# Mwy am rhannu eich gwybodaeth



Dim ond gwybodaeth sydd angen ei rhannu y byddwn yn ei rhannu.

Dim ond pan fydd yn eich helpu chi neu bobl eraill y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth.



Lle y gallwn, byddwn yn ceisio gofyn ichi a yw'n iawn rhannu eich gwybodaeth.

Efallai y bydd adegau pan fydd angen i ni rannu eich gwybodaeth heb ofyn.

Gall hyn fod oherwydd na allwn ofyn i chi, neu oherwydd bod angen ei wneud yn gyflym i'ch helpu.




Mae gennym bobl sydd wedi'u hyfforddi i'ch helpu i benderfynu sut rydych am rannu eich gwybodaeth a dim ond pan fydd hynny er eich lles chi.

# Beth yw eich hawliau gyda'ch gwybodaeth ?



Mae gennych hawl i:




- Gwybod beth sy'n digwydd gyda'ch gwybodaeth
- Gofyn am gael gweld neu gael copi o'ch gwybodaeth
- Gofyn i rywfaint o'ch gwybodaeth gael ei newid
- Gofyn i'ch gwybodaeth gael ei hanfon at sefydliad arall



- Gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth
- Gofyn i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth am ychydig
- Gofyn i ni stopio defnyddio'ch gwybodaeth

# Mynediad at gofnodion iechyd




Gallwch gael mynediad at eich gwybodaeth a'ch cofnod iechyd.  Os ydych yn blentyn gallwch ofyn i'ch rhaint neu warchgeidwad.

Gallwch gael y daflen hon mewn ieithoedd a fformatau eraill.

E-bost
amb.infogovernance@wales.nhs.uk

Gweler hefyd ein Hysbysiad Preifatrwydd Claf, ac Eich Preifatrwydd Eich Hawliau am ragor o wybodaeth.

# Os ydych am gwyno



Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru .



Eu cyfeiriad yw:
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Ty Elwy, Richard Davies Road, St Asaph, Denbighshire, LL17 0LJ




Eu cyfeiriad e-bost yw:
amb.infogov@wales.nhs.uk

# Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, os ydych yn anhapus â'r ffordd rydym wedi defnyddio'ch data.



Eu cyfeiriad yw:
Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF



Eu Rhif llinell gymorth yw:
0303 123 1113



Eu gwefan yw:
https://www.ico.org.uk